Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

# Degfed adroddiad i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

Mai 2024

senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddSafonau**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddSafonau@senedd.cymru**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

# Degfed adroddiad i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

Mai 2024

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddSafonau**

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Vikki Howells AS**
Llafur Cymru



**Natasha Asghar AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mark Drakeford AS ***
Llafur Cymru



**Peredur Owen Griffiths AS**
Plaid Cymru

* Ni chymerodd ran yn yr ystyriaethau o'r gŵyn

## Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**John Griffiths AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad** ..... 5

**2. Ystyried y gŵyn** ..... 6

**3. Y broses o drafod Penderfyniad y Pwyllgor** ..... 7

# 1. Cyflwyniad

**1.** Nodir cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau Ymddygiad (“y Pwyllgor”) yn Rheol Sefydlog 22.[1] Yn unol â'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 22.2, mae’n rhaid i'r Pwyllgor:

> *“mewn perthynas ag unrhyw gŵyn a gyfeirir ato gan y Comisiynydd Safonau…ymchwilio i’r gŵyn, cyflwyno adroddiad arni ac, os yw’n briodol, argymell camau mewn perthynas â hi.”*[2]

**2.** Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer y Senedd yn unol â Rheol Sefydlog 22.9 a pharagraff 8.23 o'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd (“y Weithdrefn”)[3] ac mae'n ymwneud â chŵyn a wnaed i’r Comisiynydd Safonau (“y Comisiynydd”).

[1] Rheolau Sefydlog
[2] Rheol Sefydlog 22.2(i)
[3] Gweithdrefn y Senedd ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd

# 2. Ystyried y gŵyn

**3.** Daeth cwyn i law'r Comisiynydd yn ymwneud ag ymddygiad Aelod mewn cyfarfod cyhoeddus.

**4.** Honnodd yr Achwynydd fod yr Aelod ac aelod o'i staff cymorth wedi gweiddi arni a galw enwau arni ac wrth wneud hynny roedd yr Aelod wedi torri Rheol 6 o'r Cod Ymddygiad (dyletswydd i beidio ag ymosod yn bersonol ar unrhyw un).

**5.** Cysylltodd y Comisiynydd â'r heddlu ym mis Hydref 2023 ar ôl i'r gŵyn ddod i law er mwyn sicrhau nad oedd ymchwiliad yn mynd rhagddo i'r mater hwn.

**6.** Cyfarfu'r Pwyllgor ar 15 Ebrill 2024 i ystyried adroddiad y Comisiynydd a dod i'w gasgliad mewn perthynas â'r gŵyn hon.

**7.** Mae'r Pwyllgor wedi cynnwys y rhannau perthnasol o adroddiad y Comisiynydd yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau anhysbysrwydd y rhai sy'n ymwneud â'r gŵyn hon yn unol â'r Weithdrefn.

**8.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion y gŵyn a thrafodaethau'r Pwyllgor wrth ddod i benderfyniad.

**9.** Darparwyd copi o'r adroddiad hwn i'r Aelod dan sylw ac i'r Achwynydd.

# 3. Y broses o drafod Penderfyniad y Pwyllgor

**10.** Bu'r Pwyllgor yn trafod p'un a dorrodd yr Aelod Reol Sefydlog 22.2(i).

**11.** Wrth ystyried a dorrwyd rheolau, adolygodd y Pwyllgor ganfyddiadau'r Comisiynydd fel y'u nodir yn ei adroddiad.

**12.** Nododd y Pwyllgor y sylwadau a wnaed gan yr Achwynydd fod rhannau o adroddiad y Comisiynydd nad oedd yn eu hystyried yn ffeithiol gywir. Cyfeiriodd y Pwyllgor y sylwadau at y Comisiynydd, a esboniodd nad oedd wedi cael unrhyw sylwadau gan yr Achwynydd pan ofynnodd am gadarnhad o'r ffeithiau. Cadarnhaodd hefyd na fyddai'r sylwadau a gyflwynwyd wedi newid ei ganfyddiadau.

**13.** Roedd adroddiad y Comisiynydd yn nodi:

i. Rai wythnosau cyn dyddiad y cyfarfod cyhoeddus, postiodd yr Achwynydd sylwadau sarhaus ar Facebook am yr Aelod a'i staff gan gynnwys ei Rheolwr Swyddfa a oedd yn perthyn i'r Achwynydd.

ii. Cyn hynny, anfonodd yr Achwynydd nifer o negeseuon testun amhriodol at yr Aelod mewn ymgais i'w pherswadio i derfynu cyflogaeth ei Rheolwr Swyddfa.

iii. Ar 25 Medi cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn [enw'r neuadd gyhoeddus] i drafod dau fater traffig yn y dref.

iv. Daeth tua 50 o bobl i'r cyfarfod gan gynnwys nifer o Gynghorwyr, yr heddlu, cynrychiolwyr y Cyngor a'r Aelod o'r Senedd lleol, a oedd yng nghwmni un o'i staff, [enw wedi'i ddileu]. Roedd yr Achwynydd hefyd yn bresennol.

v. Daeth y cyfarfod, a gadeiriwyd gan [enw wedi'i ddileu], i ben heb wrthdaro. Wedi'r cyfarfod orffen, gadawodd rhai o'r rhai oedd yn bresennol yn syth tra arhosodd eraill yn y neuadd yn sgwrsio â chyfeillion ac eraill neu'n casglu eu papurau.

vi. Symudodd yr Achwynydd, a oedd wedi bod yn eithaf pell o'r Aelod yn ystod y cyfarfod, tuag ati hi a'i haelod o staff.

vii. Pan oedd hi'n agos ato, diolchodd yr aelod o staff i'r Achwynydd am yr hyn yr oedd wedi'i bostio ar Facebook am yr Aelod a'i staff. Ni chododd yr aelod o staff ei lais wrth wneud ei sylw.

viii. Dechreuodd yr Achwynydd weiddi ar unwaith ei bod yn cael ei haflonyddu.

ix. Aeth yn gyflym at y Cadeirydd gan chwifio ei breichiau a pharhau i weiddi ei bod yn cael ei haflonyddu a gofyn i ble roedd yr heddlu wedi mynd.

x. Roedd yr heddlu wedi gadael y neuadd pan ddaeth y cyfarfod i ben.

xi. Dilynodd yr Aelod yr Achwynydd tuag at y Cadeirydd. Gofynnodd yr Aelod iddi ymdawelu a dywedodd wrthi ei bod yn wirion yn gofyn am yr heddlu a'i bod yn blentynnaidd i bostio sylwadau sarhaus ar Facebook. Cododd yr Aelod ei llais wrth annerch yr Achwynydd i sicrhau ei bod yn cael ei chlywed uwchlaw gweiddi'r Achwynydd.

xii. Ni wnaeth yr Aelod ar unrhyw adeg weiddi ar yr Achwynydd na gwneud na dweud unrhyw beth y gellid yn rhesymol ei ystyried yn aflonyddu.

xiii. Heblaw am ddiolch i'r Achwynydd am ei negeseuon Facebook, ni ddywedodd yr aelod o staff ddim byd wrth yr Achwynydd. Ni wnaeth ar unrhyw adeg weiddi ar yr Achwynydd na gwneud na dweud unrhyw beth y gellid yn rhesymol ei ystyried yn aflonyddu.

xiv. Roedd yr Achwynydd mewn trallod gan yr hyn yr oedd yn honni a ddigwyddodd yn y cyfarfod. Y diwrnod canlynol, adroddodd y mater wrth yr heddlu. Fe'i cynghorwyd mai'r ffordd gywir iddi weithredu fyddai adrodd y mater yn ffurfiol drwy broses gwyno'r Senedd gan nad oedd y digwyddiad honedig yn fater i'r heddlu gan nad oedd unrhyw drosedd wedi'i chyflawni.

xv. Cyflwynodd yr Achwynydd ei chwyn yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw.

**14.** Daeth y Comisiynydd i'r casgliad a ganlyn:

> *"The accounts given by the Complainant on the one hand and by the Member, her staff member and the Chair, [name redacted] on the other cannot be reconciled. Even if the Complainant had not been deemed to have accepted all my findings of fact, I would have preferred the account of the Member and that of the other two witnesses to that of the Complainant. The Complainant had evinced ill-will towards the Member and her staff and in particular towards [the Member's*

*Office Manager]. The undoubtedly unwise sarcastic comment by [the Member of Support Staff] would appear to have triggered the Complainant's outburst which the Chair described as 'hysterical.' Despite alleging that the Member was calling her names, the Complainant was unable to recall any of the language which she alleges was used other than that the Member repeatedly called her a liar –something she did not mention either in her complaint or in her very detailed further information document. It may be that the Complainant believes that the Member was shouting abuse at her, but if that is so I am satisfied that her belief is mistaken. Whilst there were, as would be expected, minor differences between the accounts of the Member, [the Member of Support Staff] and the Chair I am satisfied that neither the Member nor [the Member of Support Staff] shouted at her or used abusive language towards her or do anything which amounted to a breach of any relevant provision.*

Wedi ystyried y wybodaeth a oedd ar gael a'r holl sylwadau, cytunodd y Pwyllgor â chasgliad y Comisiynydd nad oedd y Cod Ymddygiad wedi cael ei dorri.